



**Adendwm i Lawlyfr gweinyddu'r Aseidiadau Personol Cenedlaethol  
ar gyfer Darllen a Rhifedd 2020/21**

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:  
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Aseu  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
e-bost: [APCymruPAWales@llyw.cymru](mailto:APCymruPAWales@llyw.cymru)



@LIC\_Addysg



Facebook/AddysgCymru

**OGL**

ISBN digidol 978 1 80195 188 3  
© Hawlfraint y Goron Mawrth 2021  
WG42511

## Cyflwyniad

Yn ystod 2020/21, y polisi mewn cysylltiad â'r gofyniad statudol i ddefnyddio asesiadau personol ym Mlynnyddoedd 2 i 9 yw y bydd **asesiadau personol mewn Rhifedd (Gweithdrefnol), Darllen Saesneg a Darllen Cymraeg yn ddarostyngedig i 'ymdrechion rhesymol' ar gyfer gweddill y flwyddyn ysgol**. Mae hyn yn gosod dyletswydd ar ysgolion i wneud pob ymdrech i gynnal asesiadau ar gyfer pob dysgwr perthnasol pan fo amgylchiadau ymarferol yn caniatáu, gan ystyried yr hyblygrwydd pellach ynghylch datgymhwyso a nodir isod.

Mae'r dull dysgu, gan gynnwys asesu, wrth i ysgolion ddychwelyd i addysgu ar y safle a gydol tymor yr haf, wedi'i nodi yn y [canllawiau diweddaraf ar gyfer ysgolion o 15 Mawrth](#). Rhan o'r dull hwn yw defnyddio asesiadau personol, fel ffordd hyblyg o gael gwybodaeth am sgiliau darllen a rhifedd i gefnogi anghenion dysgwyr unigol.

Dylai asesiadau barhau i ganolbwyntio ar ddeall anghenion, lles a chynnydd dysgwyr unigol. Yn sgil eu fformat hyblyg a'r adborth a geir ohonynt, gall asesiadau personol ennyn diddordeb dysgwyr a'u cymell, gan roi dealltwriaeth iddynt o'u sgiliau a'r camau nesaf.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai rhai ysgolion wynebu heriau ymarferol o ran trefnu asesiadau ar gyfer pob dysgwr yn ystod 2020/21. Bydd rhaid i ysgolion gael y rhyddid i arfer barn broffesiynol mewn perthynas â lles eu dysgwyr, wrth iddynt setlo'n ôl i ddysgu mewn lleoliad ffurfiol. I wneud darpariaeth ar gyfer hyn, **mae'r llawlyfr gweinyddu ar gyfer 2020/21 wedi'i ddiwygio fel a ganlyn**.

## Amseru asesiadau personol

- Er mwyn i ysgolion gael mwy o amser, a gallu trefnu asesiadau drwy gydol tymor yr haf, **ni** fydd y safle asesu yn cau am bythefnos yn ystod mis Mehefin 2021, fel y bwriadwyd yn flaenorol (gweler tudalennau 3 a 10) er mwyn llunio'r adroddiadau cynnydd cyntaf a'r sgoriau wedi'u safoni yn ôl oedran ar gyfer Darllen.
- O ganlyniad, bydd sgoriau wedi'u safoni yn ôl oedran ar gyfer Darllen yn awr ar gael ar gyfer dechrau tymor yr hydref, **dim ond os** oes nifer digonol o ddysgwyr yn gwneud yr asesiad Darllen cyn diwedd y flwyddyn ysgol.

## Lles dysgwyr a datgymhwyso

- Mae'r llawlyfr yn nodi (tudalen 25) mai mater i'r pennaeth yw penderfynu na ddylai dysgwr ymgymryd â'r asesiadau personol. Ar ôl dychwelyd i ddysgu ar y safle, bydd ymarferwyr am fod yn hyblyg wrth ymateb i anghenion a lles dysgwyr unigol. Ni ddylai asesiadau personol fyth achosi pryder i unrhyw ddysgwr; o dan yr amgylchiadau presennol, efallai y bydd ymarferwyr yn penderfynu bod achosion lle maent yn credu y byddai hyn

yn cael effaith andwyol ar les dysgwyr. Felly, yn 2020/21, caiff y pennaeth wneud penderfyniadau ar gyfer **datgymhwyso ar sail lles** os yw'n credu bod hynny'n briodol.

- Mae'r llawlyfr hefyd yn nodi bod gan ysgolion gyfrifoldeb i nodi dysgwyr nad ydynt yn gallu gweithio ar lefel y cwestiynau hawsaf yn yr asesiadau personol (tudalen 23). Yn sgil yr aflonyddwch ar y dysgu eleni, caiff ysgolion eu hatgoffa mai mater iddynt hwy yw **ystyried a ddylai'r asesiadau gael eu datgymhwyso ar gyfer unrhyw ddysgwyr nad ydynt yn gallu ateb y cwestiynau hawsaf**, yn enwedig dysgwyr Blwyddyn 2. Caiff ysgolion hefyd eu hatgoffa y gall staff newid y lefel anhawster ar gyfer y cwestiwn cyntaf ar gyfer Blwyddyn 3 ac uwch er mwyn dechrau'r asesiad ar lefel haws.
- Caiff y gofyniad i benaethiaid gadw rhestr o ddatgymwysadau (tudalen 25) ei ddileu ar gyfer y flwyddyn academaidd hon er mwyn lleihau unrhyw faich gweinyddol.

## Trefnu a chynnal asesiadau

- Gall ysgolion ddewis pa bryd i drefnu'r asesiadau ar gyfer dysgwyr unigol, grwpiau bach neu ddosbarthiadau cyfan, yn unol â'u dymuniadau a'u cyfleusterau TG (tudalen 6). Yn 2020/21, mae'r amser a dreulir yn dysgu ar y safle wedi gostwng yn sylweddol; mae'n bosibl y bydd y galw am offer TG ac ystyriaethau ymarferol eraill wrth drefnu a chynnal asesiadau ar-lein yn heriol i rai ysgolion. **Os yw ysgol wedi gwneud pob ymdrech resymol ond, oherwydd rhesymau ymarferol, nad yw'n gallu asesu pob dysgwr perthnasol, bydd yr ysgol wedi cyflawni'r gofyniad statudol.**

## Adborth ac adroddiadau

- Mae'r llawlyfr yn nodi (tudalen 10) bod rhaid i adroddiadau cynnydd ac adborth ar ddysgwyr unigol gael eu rhannu â rhieni/gofalwyr fel rhan o'r broses adrodd arferol. Argymhellir y dylai ysgolion rannu'r rhain â rhieni/gofalwyr pan fo'r wybodaeth yn gyfredol. Ar gyfer asesiadau a wneir yn 2020/21, dylai ysgolion arfer eu barn broffesiynol ynghylch yr amseru a'r dulliau mwyaf priodol ar gyfer rhannu adborth ac adroddiadau a gesglir o asesiadau personol, fel rhan o'u trafodaethau rheolaidd â rhieni a gofalwyr am sgiliau darllen a rhifedd dysgwyr.